



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

# Echdoriad Trawswrethrol o'r Brostad (TURP)

## Adran Wroleg

### Ble mae'r Chwarren Brostad?

Lleolir y chwarren brostad o dan y bledren sydd y tu ôl i asgwrn yr arffed - **gweler y diagram isod**. Mae'r wrethra (pibell ddŵr) yn rhedeg o'r bledren trwy'r brostad i flaen y pidyn. Wrth i'r brostad fynd yn fwy, gall wasgu ar yr wrethra, ac oherwydd hynny, bydd troethi'n anoddach. Gall hyn hefyd effeithio ar y bledren gan achosi symptomau megis gorfod pasio dŵr yn aml a gorfod pasio dŵr ar frys.



Atgynhychwyd â chaniatâd caredig Health Press Ltd, Rhydychen

### Beth mae'r Chwarren Brostad yn ei wneud?

Mae'n organ atgenhedlu. Ei brif swyddogaeth yw cynhyrchu hylif sy'n maethu'r sberm ac yn helpu i hylifo'r semen ar ôl alldaflu.

### Pam fydd y Chwarren Brostad yn mynd yn fwy?

Wrth i ddynion heneiddio, bydd y brostad yn mynd yn fwy oherwydd Hyperplasia (Gordwf) Anfalaen y Brostad (BPH). Mae hon yn broses heneiddio arferol. Mae'n effeithio ar 1 o bob

3 o ddynion dros 50 oed. Nid yw BPH yn achosi canser y brostad; mae hynny'n glefyd hollol wahanol.

### Beth yw manteision y llawdriniaeth?

Mae'n tynnu neu'n agor y rhannau rhwystrol o'r brostad, sy'n gallu gwella'r gallu i basio dŵr

## Beth yw'r risgiau?

### Cyffredin

Gwaedu dros dro, enynfa ysgafn ac amllder troethi ar ôl llawdriniaeth  
Ni chynhyrchir unrhyw semen yn ystod orgasm (anterth sych) yn achos oddeutu  
75% ar ôl TUIP  
20% ar ôl TUIP  
Efallai na wnaiff leddfu pob un o symptomau'r brostad

### Achllysurol

Codiadau gwael (Analluedd yn achos oddeutu 5-10% o gleifion)  
Haint yn y bledren neu'r arenau y bydd angen gwrthfotigau i'w drin  
Gwaedu y bydd yn rhaid dychwelyd i'r theatr neu gael trallwysiad gwaed yn ei sgil  
Angen posibl i ailadrodd y driniaeth yn ddiweddarach oherwydd rhwystr arall  
(10% o gleifion)  
Os na fydd y bledren yn gwagio'n briodol, efallai y bydd angen hunan-gathetreiddio i  
wagio'r bledren yn llwyr  
Methu â phasio dŵr ar ôl llawdriniaeth (bydd hynny'n golygu bod angen  
cathetreiddio wrinol)

### Prin

Canfod canser annisgwyl yn y meinwe a dynnwyd (efallai bydd angen rhagor o  
driniaeth yn sgil hynny)  
Anaf i'r bibell ddŵr (yr wrethra) gan achosi creithiau  
Anymataliaeth dros dro neu barhaol  
Amsugno hylif dyfrhau gan achosi dryswch, methiant y galon  
(Syndrom TUR)  
Twll yn y bledren a fydd yn gofyn am gathetr wrinol dros dro neu lawdriniaeth i'w  
atgyweirio


## A oes unrhyw ddewisiadau eraill ar gael?

Aros yn wyladwrus – arsylwi eich symptomau wrinol yn unig, meddyginiaethau,  
cathetr wrinol neu stent prostatig.

## Beth sy'n digwydd yn ystod llawdriniaeth (TURP)?

Yn ystod y llawdriniaeth, tynnir rhan ganol y chwarren brostad sy'n gwasgu'r  
wrethra - **gweler y diagram isod**. Anfonir meinwe'r brostad i'r labordy i

gael ei harchwilio o dan ficrosgop. Bydd y llawdriniaeth fel arfer yn para tua 30-60  
munud.



Atgynhyrchwyd â chaniatâd caredig Health Press Ltd, Rhydychen

## Beth yw Endoriad Trawswrethrol y Brostad (TUIP)?

Gelwir y driniaeth hon hefyd yn endoriad yng ngwddf y bledren. Rhoddir y driniaeth hon i ddynion sydd â symptomau rhwystrol yn y llwybr wrinol ond sydd â phrostat cymharol fach. Mae'n llawdriniaeth eithaf cyflym a wneir o dan anesthetig. Bydd yn para oddeutu 20 munud. Mae'r posibilrwydd o brofi sgil-efeithiau yn dilyn TUIP yn is nag yn achos TURP.

Bydd telesgop a camera yn cael eu symud i fyny drwy'r wrethra i'r brostad. Gwneir un neu ddau o doriadau bychan yng ngwddf y bledren a'r brostad yn lle tynnu meinwe o'r brostad fel y gwneir yn achos TURP. Trwy wneud hyn, agorir gwddf y bledren a'r wrethra prostateg gan greu sianel ehangach i basio dŵr drwyddi.

## Beth sy'n digwydd cyn y llawdriniaeth?

Cyn eich llawdriniaeth, gofynnir i chi fynd i'r Clinig Cyn Derbyn. Diben hynny yw sicrhau eich bod yn ddigon iach a heini i gael eich llawdriniaeth. Gofynnir cwestiynau i chi am eich iechyd cyffredinol a byddwch yn cael rhai neu bob un o'r profion canlynol: profion gwaed ac wrin, pelydr-x ar y frest ac ECG (olrhain gweithgarwch y galon). Mae'r rhain yn brofion arferol cyn llawdriniaeth. Byddwch yn cael cyfle hefyd i ofyn unrhyw gwestiynau.

## Eich llawdriniaeth

Gofynnir i chi beidio â bwyta nac yfed unrhyw hylifau nad ydynt yn hylifau clir (er enghraifft cawl, llaeth ac ati) am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Gallwch gymryd hylifau clir (dŵr/diodydd meddal) hyd at 2 awr cyn eich llawdriniaeth. Ar ôl hynny, gofynnir i chi beidio ag yfed unrhyw beth arall. **Os ydych chi'n ddiabetig sy'n ddibynnol ar inswlin, bydd angen cyfarwyddyd arbennig arnoch chi. Trafodwch hyn â'ch nyrs.**

Cyn mynd i'r theatr, gofynnir i chi gael cawod a gwisgo gŵn ysbyty a hosanau arbennig. Diben yr hosanau yw helpu i leihau'r risg o gael clotiau yn eich coesau. Os ydych chi'n teimlo'n bryderus ac os yw hynny'n briodol, efallai eich bod wedi cael meddyginiaeth i'ch ymlacio ('pre-med') ar bresgripsiwn. Rhoddir y feddyginiaeth hon

i chi ar y ward cyn i chi fynd i'r theatr. Bydd nyrs yn mynd gyda chi i'r theatr, a byddwch yn cael eich cludo oddi yno i'r ystafell anesthetig ble byddwch yn cael eich anesthetig.

## **Beth fydd yn digwydd ar ôl y llawdriniaeth?**

Bydd y nyrsys yn gwirio pwysedd eich gwaed, cyfradd curiad eich calon a'ch cyfradd anadlu, eich poen a'ch allbwn wrin yn rheolaidd. Wrth i chi adfer wedi'r anesthetig, bydd y gwiriadau hyn yn digwydd yn llai aml.

Isod, rhestrir y tiwbiau a'r draeniau y gallech eu cael. Peidiwch â phoeni amdanynt - eu diben yw rhoi hylifau i chi neu i ddraenio hylifau o'ch corff. Fel arfer, cânt eu tynnu ar yr un diwrnod neu ar y bore canlynol.

- **Trwyth mewnwythiennol** - (IVI neu ddiferwr) - Bydd canwla (tiwb plastig main) yn cael ei osod mewn gwythïen yn eich braich a bydd hylif yn cael ei lifo drwyddi i sicrhau na fydd eich corff yn brin o hylif. Gellir ei ddefnyddio hefyd i roi gwrthfotigau mewnwythiennol, gwaed ac ati i chi. Pan fyddwch chi'n yfed a ddim yn teimlo'n sâl, caiff yr IVI ei thynnu.
- **Cathetr wrinol** - Gosodir cathetr (tiwb) yn y bledren ar ddiwedd y llawdriniaeth i ddraenio wrin o'ch bledren. Bydd yr wrin sy'n dod allan o'r cathetr wedi'i staenio â gwaed. Caiff hylif clir (dyfrhau) ei redeg i mewn ac allan o'r bledren drwy'r cathetr. Diben gwneud hyn yw fflysio'r gwaed o'r bledren a bydd yn helpu i atal clotiau gwaed. Fel arfer, caiff y cathetr ei dynnu ar y diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth os na fydd eich wrin yn rhy waedlyd. Os byddwch chi'n pasio dŵr ar ôl i'r cathetr gael ei dynnu, byddwch chi'n cael mynd adref.

## **Am faint fyddaf i yn yr ysbyty?**

Diwrnod neu ddau

## **A fyddaf i'n cael unrhyw driniaethau dilynol?**

Ni fydd ar bob claf angen apwyntiad ychwanegol yn y clinig. Os bydd eich meddyg am i chi gael eich gweld yn y clinig eto, byddwch yn cael gwybod am hynny.

## **Gwybodaeth ynghylch Rhyddhau**

**Troethi** - Efallai y gwnewch chi brofi rhywfaint o anesmwythdra wrth basio dŵr am ddiwrnod neu ddau ar ôl eich llawdriniaeth. Os bydd hynny'n gwaethygu neu os bydd gennych dymheredd neu os byddwch yn pasio dŵr drewllyd a allai awgrymu haint ym mhibell y bledren, dylech hysbysu'ch meddyg teulu oherwydd efallai y bydd angen gwrthfotigau arnoch.

Anhawster rheoli pasio dŵr ynghyd â gollyngiadau a gorfod pasio dŵr ar frys ac yn aml. Dylai'r symptomau hyn wella'n araf dros 4-8 wythnos ar ôl y llawdriniaeth. Mae'n bwysig cofio, po hiraf y gwnaethoch chi brofi'r pasio dŵr cyn y llawdriniaeth, mwyaf yn y byd y gall gymryd adennill rheolaeth lawn ac arferol ar y bledren.

Mae'n gyffredin profi mymryn o waed yn yr wrin am oddeutu

2-3 wythnos. Tua 10 diwrnod ar ôl eich llawdriniaeth bydd y cramennau a ffurfiwyd yn disgyn oddi ar y brostad ac efallai y gwnewch chi sylwi ar rywffaint o waed yn eich dŵr. Fel arfer, bydd hyn yn diflannu trwy yfed mwy o hylifau. **Os bydd y gwaedu'n drwm ac yn ddi-baid, neu os byddwch chi'n pasio clotiau yn eich dŵr, dylech chi gysylltu â'ch meddyg teulu.**

Yn anaml iawn, gall clot rwystro'r beri rhwystr yn yr wrethra a bydd hi'n amhosibl pasio dŵr. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen i chi ddod i'r ysbyty, ac yno, bydd y meddyg yn rhoi cathetr i chi i fflysio'r clotiau gwaed o'r bledren. Efallai y bydd angen i chi aros dros nos yno.

**Coluddion** - Ceisiwch beidio â mynd yn rhwym oherwydd gall gorfod ymdrechu i gael eich gweithio achosi gwaedu. I atal rhwymedd, sicrhewch fod eich diet yn cynnwys digon o ffibr (grawnfwyd, bara brown, bran), yfwch o leiaf 8 cwpan o hylif bob dydd a gwnewch ymarfer corff yn rheolaidd.

**Ymarfer corff** - Peidiwch â chodi pethau trwm, gorymdrechu, gwneud ymarfer corff egniol neu seiclo am oddeutu 6 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth i ganiatáu i'r corff wella. **Dylech chi allu ailafael yn eich gweithgareddau arferol o fewn 4 wythnos.**

**Gyrru** - Byddwch chi'n gallu gyrru ar ôl oddeutu wythnos ond ceisiwch osgoi teithiau hir am tua 6 wythnos. Holwch eich cwmni yswiriant yn gyntaf.

**Cyfathrach rywiol** - Dylech chi allu ailafael mewn gweithgarwch rhywiol oddeutu 2-3 wythnos ar ôl y llawdriniaeth. Alldaflu atchwel (anterth sych) yw sgîl-ffaith hirdymor mwyaf cyffredin TURP. Bydd y semen yn mynd i mewn i'r bledren yn lle dod allan trwy'r pidyn. Ni ddylai hyn effeithio ar eich teimladau ynghylch cyfathrach rywiol na'r gallu i gael cyfathrach rywiol, ond bydd 1 o bob 10 dyn yn canfod na fyddant yn cael codiad mor dda ar ôl TURP. Os bydd hynny'n broblem, dylech drafod y mater â'ch meddyg.

### **Meddyginiaethau i'w cymryd gartref**

Dylech barhau i gymryd eich meddyginiaethau arferol oni byddwch wedi cael cyngor gwahanol. Fel arfer, ni fydd angen unrhyw feddyginiaethau eraill ar ôl y llawdriniaeth hon. Fe wnaiff eich nyrs drafod hynny â chi.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, rhestrir rhifau cyswllt y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg isod:-**

### **Ward Wroleg:-**

D 2 Gorllewin:- 01633 - 234132

### **Uned Asesu Wroleg-**

Rhif ffôn:- 01633 - 234029 (24 awr)

### **Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg -**

Julie Simpson, Louise Broadway, Kathleen Connor-Middleton, Jessica Morgan.  
Rhif ffôn:- 01633 – 238976

Dydd Llun - Dydd Gwener (oriau swyddfa)

**Cyfeiriadau:**

(1) Cymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain (2004) *Procedure Specific Consent Forms for Urological Surgery*

(2) Tanagho EA, McAninch JW (2003) Smith's General Urology

**"This document is available in English /  
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

